CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL

DISGRIFIAD SWYDD

Mae'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymhwyster hanfodol ar gyfer y swydd hon

Teitl y Swydd:	**Cynorthwy-ydd Cyffredinol yn y Gegin Lefel 3**
Rhif y Swydd:	**MCC3696**
Cod Gwerthuso Swyddi:	**LES338**
Gwasanaeth:	**Arlwyo a Glanhau**
Lleoliad/Canolfan Waith:	**Ysgol Llanfyllin**

(mae hon yn swydd gweithio o leoliad, ac felly bydd rhaid i'r sawl sydd yn y swydd weithio o leoliad penodol fel y nodir)

Graddfa:	**Graddfa 3** **Pwynt 3 i Bwynt 4** **£25,614 i £26,016 y flwyddyn ar gyfartaledd** **£13.27 i £13.48 yr awr**

Ar hyn o bryd mae gan Gyngor Sir Powys dâl atodol Cyflog Byw Gwirioneddol yn ôl disgresiwn i weithwyr sy'n ennill llai na £13.45 yr awr.

Oriau'r contract:	**20 awr, Parhaol (38 wythnos y flwyddyn)**
Atebol i:	Cogydd neu Dim Rheoli Ardal
Cyfrifoldeb dros:	Neb

Crynodeb

Am y rôl:

Cynorthwyo'r Cogydd â Chyfrifoldeb gyda dyletswyddau cegin arferol ar gyfer paratoi, coginio, a gweini prydau bwyd a diodydd hyd at safon a ddynodir gan Wasanaethau Arlwyo Powys. Cydymffurfio â safonau maeth yn unol â mesur Ysgolion Iach Cymru 2013. Cefnogi a hyrwyddo'r Gwasanaeth Arlwyo a'i nodau a'i amcanion yn ddyddiol.

Bydd eich cyfrifoldebau'n cynnwys:

1. Cydymffurfio â'r Ddeddf Safonau Bwyd ar bob adeg a Pholisïau a Gweithdrefnau Gwasanaethau Arlwyo Powys gan gynnwys y polisi Hylendid a'r Polisi Golchi Dwylo. Sicrhau safon dda o arferion gwaith diogel ar bob adeg.

2. Cynorthwyo gyda rheoli stoc, storio, paratoi, coginio ac efallai y bydd y gwasanaeth yn gofyn i chi helpu cludo prydau bwyd ar sail wirfoddol, a gweini prydau bwyd ar ac oddi ar y safle, yn unol â gofynion y gwasanaeth.

3. Cynorthwyo paratoi'r ardal fwyta ar gyfer gwasanaeth, gan gynnwys gosod a symud byrddau a chadeiriau ar gyfer prydau bwyd a chlirio a glanhau wedyn. Paratoi'r ardal weini yn barod ar gyfer gwasanaeth

4. Cynorthwyo gweini prydau bwyd sy'n cydymffurfio â chanllawiau maeth a chyllideb Llywodraeth Cymru gan ddilyn canllawiau ar faint prydau, yn cynnwys deit arbennig.

5. Cadw cofnodion ar bapur ac yn electronig fel y bo angen.

6. Golchi llestri, cyllyll a ffyrc, offer cegin ac offer bychan cysylltiedig fel sy'n ofynnol. Helpu i gadw'r gegin yn lân trwy lanhau'n rheolaidd yr holl gyfarpar, ardaloedd biniau, ystafell storio ac ardaloedd atodol a glanhau'n ddyddiol yn unol ag amserlen glanhau'r gegin.

7. Mynychu'r holl hyfforddiant perthnasol pan fo angen (a allai fod tu allan i oriau craidd neu ar-lein fel y bo angen).

8. Cynnal safonau da o waith trwy:
   - Rhoi gwybod am unrhyw gyfarpar diffygiol yn unol a gweithdrefnau
   - Cymryd a chofnodi tymheredd cywir
   - Sicrhau bod arfer hylendid da yn cael eu cynnal
   - Sicrhau amgylchedd gwaith diogel

9. Gwisgo dillad / esgidiau gwaith priodol sy'n cael eu darparu.

Gofynion Gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

Oherwydd natur y gwaith sydd ynghlwm â'r swydd, mae'r swydd rydych yn ymgeisio amdani yn dod o dan y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) Gorchymyn 1975 (fel y'i diwygiwyd yn 2013) – Bydd angen Gwiriad Manwl y DBS, a dosberthir y swydd hon fel gweithgaredd rheoledig o dan y Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 a bydd yn amodol ar wiriad o'r rhestr o'r bobl hynny sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant.

Gofynion Iechyd a Diogelwch

I gydweithio gyda'r cyflogwr a dilyn cyngor a chyfarwyddiadau iechyd a diogelwch.

Datganiad Cydraddoldebau:

Dilyn egwyddorion ac arferion cyfle cyfartal fel y nodir ym Mholisi Cyfle Cyfartal y Cyngor.

Gofynion y Gymraeg

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol

SYLWCH;

Er y manylion sydd yn y swydd ddisgrifiad, bydd gofyn i'r sawl sydd yn y swydd wneud unrhyw waith ar gais y Rheolwr o dro i dro, hyd at neu ar lefel sy'n cyfateb â 'Phrif Gyfrifoldebau'r Swydd.'

Y PERSON

Ydych chi'n meddwl mai chi yw'r person cywir i'r rôl? Os felly, dangoswch eich bod chi'n bodloni'r meini prawf canlyniol yn eich cais.

Profiad

Hanfodol

- O gwrdd a therfynau amser a sicrhau diogelwch bwyd

Dymunol

- Profiad o weithio mewn amgylchedd arlwyo prysur i amserlenni tynn
- Profiad o ddefnyddio cyfarpar arlwyo.
- Rheoli maint y prydau bwyd

Gwybodaeth

Hanfodol

- Dealltwriaeth o ddeddf Diogelwch Bwyd
- Dealltwriaeth o Iechyd a Diogelwch

Dymunol

- Gofynion bwydlenni a rysetiau
- Prydau bwyd ysgol
- Dealltwriaeth dda o fwyta'n iach a maeth, safonau maeth a deit arbennig
- Dealltwriaeth o alergau

Cofrestriadau, Cymwysterau a Hyfforddiant

Hanfodol

- Mae'r gallu i gael Tystysgrif Diogelwch Bwyd Lefel 2 yn hanfodol
- Gallu i gyflawni hyfforddiant Trin a Chario
- Gallu i weithio o fewn rheoliadau maint prydau bwyd
- Gallu i fynychu hyfforddiant tu allan i oriau craidd

Rhinweddau Personal

Hanfodol

- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol da
- Gallu i weithio fel rhan o dim
- Gallu bod yn hyblyg o ran amseroedd gwaith mewn argyfwng

Sgiliau

Hanfodol

- Mae sgiliau darllen ac ysgrifennu yn hanfodol
- Gallu i gofnodi data'n gywir ar bapur ac yn electronig
- Sgiliau TG

- Gallu i gydymffurfio a holl lefelau o gyfrinachedd
- Gallu i ddangos tasgau gwaith i staff
- Gallu llafar ac ysgrifenedig yn y Gymraeg
- Gallu i ddiwallu gofynion corfforol y swydd
- Gallu i ymateb i lwyth gwaith trwm, diwallu amserlenni tynn a chyflawni'r gwasanaeth sydd ei angen.

Dymunol

- Trwydded yrru a'r gallu i yrru fan

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol

Rheolwr recriwtio: Cheryl Leighton
11/2015

Ein gwerthoedd:

Proffesiynol
Rydym yn ymddwyn gyda phroffesiynoldeb ac integriti ym mha bynnag rôl yr ydym yn ei chwarae yn y cyngor

Cadarnhaol
Mae ein hagwedd yn gadarnhaol ym mhopeth a wnawn

Blaengar
Mae ein hymagwedd yn rhagweithiol a chyfrifol wrth gynllunio am y dyfodol

Agored
Rydym yn hysbysu'n gilydd gan rannu gwybodaeth ac ymddwyn â gonestrwydd ac integriti

Cydweithiol
Rydym ni'n gweithio'n adeiladol ac â pharodrwydd ar fentrau ar y cyd

Sut i ymgeisio

Bydd angen i chi gwblhau'r cais ar-lein, mae'n syml, dilynwch y broses gam wrth gam.

Gair i gall:

- Darllenwch y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person yn ofalus a'r dystiolaeth eich bod chi'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol yn eich datganiad cefnogi.
- Gwerthwch eich hun a rhowch enghreifftiau ble y bo'n bosibl

- Rhestrwch y cymwysterau sydd gennych sy'n berthnasol i'r swydd, yn ôl y manylion ym manyleb y person.
- Sicrhewch fod un o'ch canolwyr o'ch cyflogwr mwyaf diweddar neu os mai hon yw eich swydd gyntaf beth am ofyn i athro ysgol neu diwtor, ond sicrhewch eich bod yn adnabod y canolwr ar lefel broffesiynol.
- Byddwch yn onest a dywedwch wrthym am unrhyw fylchau yn hanes eich cyflogaeth
- Cwblhewch y cais yn gyflawn

Camau nesaf

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 26/11/2026
Ar ôl cyflwyno byddwn yn anfon e-bost atoch i roi gwybod i chi ein bod ni wedi derbyn eich cais.
Byddwn yn creu rhestr fer o'r ceisiadau ar 27/11/2026. Byddwn yn anfon e-bost atoch os ydych chi'n llwyddiannus ai peidio. Felly, cadwch lygad ar eich mewnflwch!

Bydd y cyfweliadau'n digwydd ar 01/12/2026

Dymunwn bob hwyl i chi gyda'ch cais.